OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 932 (W.122)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud - - 26 Mawrth 2003

Yn dod i rym fel y darparwyd yn erthygl 1

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 101(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

Enw a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003.

(2) Mae'r Erthygl hon ac Erthygl 2(1) a (2), o'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Medi 2003.

(3) Mae Erthygl 2(3) yn dod i rym ar 1 Medi 2004.

Diwygio Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002

2.—(1) Caiff Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (b) mewnosodir —

"(ba) provision for personal and social education for all registered pupils at the school who are of compulsory school age,".

(3) Ar ôl paragraff (ba) (a fewnosodir yn unol â pharagraff (2)) mewnosodir —

"(bb) provision for work-related education for all registered pupils at the school during the fourth key stage,".

(**1**) 2002 p.32.